# PERYGLON CEMEGOL, BIOLEGOL NEU RADIOLEGOL I FERCHED BEICHIOG A MAMAU NEWYDD



Gall peryglon cemegol, biolegol a radiolegol beri risg iechyd ar ddechrau beichiogrwydd. Nod y cyngor yn y daflen hon yw cefnogi iechyd babanod newydd, neu fabanod sydd heb eu geni eto.

**CEMEGAU:** Gallent dreiddio i'r corff drwy anadlu, amlyncu, pigiadau neu amsugniad drwy'r croen. Mae rhai sylweddau yn hynod beryglus i rywun sy'n ceisio beichiogi neu i ferched beichiog a mamau newydd. Mae'r rhain yn cynnwys carsinogenau, teratogenau a mwtagenau a chânt eu hadnabod gan yr ymadroddion risg canlynol ar daflenni diogelwch cemegol:

| | |
|---|---|
| **H351 (R40)** | Amheuir o achosi canser |
| **H350 (R45)** | Gall achosi canser |
| **H340 (R46)** | Gall achosi niwed genetig |
| **H350i (R49)** | Gall mewnanadlu'r sylwedd achosi canser |
| **H360F (R60)** | Gall niweidio ffrwythlondeb |
| **H360D (R61)** | Gall achosi niwed i fabanod heb eu geni |
| **H361f (R62)** | Yn cael ei amau o ffrwythlondeb niweidiol |
| **H361d (R63)** | Amau o niweidio'r babanod heb ei eni |
| **H362 (R64)** | Gall achosi niwed i blant sy'n cael eu bwydo ar y fron |

Mae'n hanfodol rheoli'r cemegau hyn yn ofalus. Bydd Asesiad Risg yn sicrhau rheolaethau diogel i ferched beichiog a mamau newydd sy'n gweithio mewn labordai lle caiff cemegau tebyg eu defnyddio.

**BIOLEGOL:** Dosbarthir peryglon biolegol gan yr HSE i 4 categori - grŵp perygl 4 yw'r mwyaf peryglus. Ym Mhrifysgol Bangor, caiff organebau grŵp perygl 2 eu defnyddio mewn sawl labordy dysgu ac ymchwil. Mae rhai o'r organebau grŵp perygl 2 hyn yn risg i ferched beichiog, e.e. listeria sydd mewn ambell i gaws heb ei basteureiddio.





Mae risg posibl wrth weithio gydag anifeiliaid os yw'r anifail yn dioddef o haint y gellir ei drosglwyddo i bobl. Mae rhai o'r heintiau hyn, megis chlamydia psittaci, yn risg i ferched beichiog. O ganlyniad, ni ddylai merched beichiog weithio gyda defaid beichiog, ac mae'n rhaid gwneud asesiad risg am yr holl waith sy'n ymwneud ag anifeiliaid neu mewn labordai lle caiff organebau grŵp perygl 2 eu defnyddio.

**PELYDRIAD:** Prif ffynhonnell pelydriad ïonig yw'r defnydd o beiriannau pelydr-x a'r defnydd o ffynonellau pelydredd agored. Rhaid i chi ddweud wrth y Goruchwyliwr Diogelu rhag Ymbelydredd lleol cyn gynted ag y gwyddoch chi eich bod yn feichiog fel bod modd gosod rheolaeth ychwanegol i warchod eich plentyn os bydd angen.

Daw pelydriad anionig o ffynonellau a laserau uwchfioled ac isgoch. Nid yw'r rhain yn peri risg uchel iawn i ferched beichiog nag ychwaith i famau sy'n bwydo ar y fron. Ffynonellau eraill o belydriad anionig yw meysydd a thonnau electromagnetig. Ni ddylid dod i gysylltiad â meysydd electrig a magnetig y tu hwnt i'r terfynau a osodwyd gan yr Control of Electromagnetic Fields at Work Regulations 2016.





**GWYBODAETH BELLACH:** Mae'r cysylltiadau canlynol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol. Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon, mae croeso i chi gysylltu â ni:

1. Iechyd a Diogelwch - [www.bangor.ac.uk/hss/](www.bangor.ac.uk/hss/)
2. Michele Lake, Ymarferwr Iechyd Galwedigaethol - **01248 382575** / est **2575**
3. Llawlyfr Mamau Newydd a Mamau Beichiog ([Gwefan IaD])

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY